

Gweddïwn



GWEDDI AR GYFER MIS HANES POBOL DDUON

GAN ROBIN SAMUEL

Ti, sydd oruwch pawb,
a thrwy bawb
ac ym mhawb.
Ti, yr Un Duw a Thad i bawb.
Cydnabyddwn mai Ti yw ein Duw
a'n bod yn frodyr a chworydd i'n gilydd.
Ynot ti yr ydym yn ymddiried,
a ffordd dy fab, Iesu Grist, a ddilynwn.

Ym Mis Hanes Pobl Dduon
trown i wynebu'r gorffennol,
gan gydnabod cymaint sydd yno i beri arswyd
a chodi cywilydd.
Archoll y fasnach erchyll mewn caethwasiaeth
a fu'n gyfrifol am ddifa a difrodi bywydau miliynau
o'n brodyr a'n chworydd du.
Y gorthrwm cyfundrefnol,
y ddrwgdybiaeth a'r sen,
y cam drin geiriol a chorfforol,
yr anffafiaeth a'r anghyfiawnder,
a brofwyd ganddynt dros y cenedlaethau.
Mewn gwir edifeirwch, gofynnwn am dy faddeuant
am ran weithredol ein gwlad, ein cymunedau,
ein sefydliadau a hyd yn oed ein heglwysi
yn hyn oll.

GWEDDI AR GYFER MIS HANES POBOL DDUON

GAN ROBIN SAMUEL

Rhyfeddwn a diolchwn fod cymaint o'r rhai a brofodd orthrwm
heb golli golwg
ar uniondeb cymeriad,
gan ddangos dewrder, cryfder a dyfalbarhad
i herio hiliaeth
a hwyluso'r ffordd i
heddwch, tegwch a chyfiawnder.

Dathlwn fywyd a chyfraniad Betty Campbell
y brifathrawes ddu gyntaf yng Nghymru
ac un a fu'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth
yn ei hysgol, ei chymuned, ei dinas a'i gwlad.
Bu'n rhaid iddi hi frwydro yn erbyn hiliaeth
yn ei bywyd personol,
ond fe wyddai am ryw gryfder o'i mewn.

Diolchwn am ei hysbrydoliaeth
i genedlaethau o blant Ysgol Mount Stuart
a thrigolion ei chymuned yn Nhre-biwt,
yn addysgu
ac yn hybu amlddiwylliant a chyfartaledd.
Bydded i'r heneb a godwyd i'w hanrhydeddu –
'Y Fam Goeden'
a'i mantell yn amddiffyn ac yn gwarchod
dros ei phlant a'i chymuned,
ysbrydoli a herio pob un fydd yn ei weld
i gofio am ei chyfraniad
a pharhau a'i gwaith.

GWEDDI AR GYFER MIS HANES POBOL DDUON

GAN ROBIN SAMUEL

Er holl ymdrechion Betty Campbell a llawer tebyg iddi hi,
gwyddom fod hiliaeth yn dal gyda ni
yn ein hiaith, ein sefydliadau
a'n systemau,
yn ceisio drysu dy gynlluniau Di,
yn rhwystro'r ffordd i'r cyfiawnder a'r heddwch y mae Iesu yn dymuno ei weld,
yn herio neges yr efengyl am fywyd cyflawn i bob un

Cynorthwya ni heddiw Arglwydd i ddatgan
fod pob bywyd yn cyfrif i Ti,
sy'n un Duw a Thad i bawb.
Caniatâ i ni deimlo dy gryfder Di o'n mewn
yn ein herio a'n hysbrydoli
i fynd i'r afael â'r drwg.
Ymrwymwn ein hunain i fod
yn bobl dy ffordd Di,
yn creu llwybrau drwy anialwch hiliaeth a chasineb ein byd
er mwyn i degwch, dealltwriaeth, gras a thosturi
gael lle yng nghalonau a bywydau pob un.
Yn enw Iesu Grist

Amen

Roedd Betty Cambell yn ystyried y gân '(Something Inside) So Strong' gan Labi Siffre fel un a fu'n ysbrydoliaeth iddi hi. Canwyd y gân gan gôr ysgol gynradd Mount Stuart yn y seremoni i ddadorchuddio'r gofeb. Gellid chwarae fersiwn o'r gân cyn neu ar ôl y weddi.

'Y Fam Goeden'. Dywed Eve Shepherd, y cerflunydd a greodd y gofeb i Betty Cambell, bod y syniad o'r 'Mother Tree', a welir yn nhraddodiadau rhai o'r bobloedd cynfrodol, wedi ysbrydoli ei cherflun. 'Mother Trees' yw'r coed hynaf a mwyaf o fewn coedwig, ac fe greidir eu bod yn gwarchod yr eginblanhigion drwy drosglwyddo carbon iddynt. Gellid dangos llun o'r cerflun ar sgrin yn ystod y weddi.

